

DILYNWCH Y FFORDD I'R BYWYD

Nodyn i'r siaradwr:

Meithrinwch werthfawrogiad y gynulleidfa o'r ymadroddion doeth a ysbrydolwyd gan Jehofah a gynhwysir yn llyfr y Diarhebbion. Gallwn ninnau ddangos doethineb wrth wrando ar yr ymadroddion ysbrydoledig hyn a'u rhoi ar waith

RHODD WERTHFAWR IAWN YW BYWYD (4 mun.)

Mae pawb ohonom yn ymboeni i gael y gorau allan o fywyd (*w85 8/15 11-16*)

'Rydym yn dymuno iechyd da er mwyn mwynhau ein bywyd

Rhwystredig yw gweld y cyfyngiadau a ddaw yn sgil iechyd gwael

Gallwn ddiolch i'n rhieni ein bod yn fyw ac yn cael cyfle i wneud pethau

Mae'n hynod bwysig ein bod yn diolch i Jehofah, yr Un sy'n gwneud bywyd oll yn bosib' (*Salmau 36:9*)

Fe wŷr ef beth sydd ei angen arnom, y dull bywyd ddaw â'r hapusrwydd mwyaf, egwyddorion sicrhau bywyd llwyddiannus, yn ogystal â'n gobeithion ar gyfer y dyfodol (*Diar 9:10, 11*)

Fe ystyriwn rai enghreifftiau yn llyfr y Diarhebbion a all ein helpu ar y ffordd i fywyd

DIARHEBBION YN RHOI ARWEINIAD DOETH AR GYFER BYWYD HAPUS (20 mun.)

Sut i gael eich hoffi

Dangos caredigrwydd teyrngar a ffyddlondeb (*Diar 3:3, 4; 11:17*); siarad yn onest (*Diar 3:29*); siarad yn dyner a chyda deall (*Diar 15:1, 2*); glynu'n agos wrth gyfaill (*Diar 18:24*)

Gwneud bywoliaeth

Yn sgil ymroddiad y daw gwir lwyddiant a chynllunio ymlaen llaw (*Diar 6:6-11*); diwydrwydd (*Diar 10:4, 5*); gonestrwydd (*Diar 11:1*); barn gytbwys (*Diar 11:15*); gwneud gwaith medrus (*Diar 22:29*); peidio â rhoi ein holl ymddiried yn ein henillion (*Diar 11:28*)

Sicrhau bywyd teuluol hapus

Ceisiwch fod yn ystyriol a thringar (*Diar 16:21, 23, 24; 17:1*); byddwch yn faddeugar (*Diar 17:9, 13*); byddwch yn gariadus (*Diar 10:12*); byddwch yn ffyddlon i'ch cymar (*Diar 5:15-20*); dylai'r gwŷr ddarparu'n dda ar gyfer ei deulu (*Diar 12:11*); dylai'r wraig ofalu am ei theulu yn dda (*Diar 31:11, 12, 15, 26-28*); hyfforddi'r plant yn dda (*Diar 13:24; 15:5, 20; 22:6, 15; 29:15, 17*); parchu'r rhai hŷn (*Diar 1:8, 9; 19:26; 23:22, 24, 25*)

Osgoi problemau

Mae moesoldeb yn amddiffyn rhag problemau iechyd (*Diar 5:3-11; 6:24-33*); mae pwyll yn hybu iechyd (*Diar 14:30*); tynerwch yn helpu osgoi llid (*Diar 15:4, 18*); peidiwch â thalu'r pwyth yn ôl (*Diar 24:29*); osgowch feddwdod (*Diar 20:1; 23:20, 21, 29-35*)

MAE OFN JEHOFAH YN SYLFAENOL I SICRHAU BYWYD TRAGWYDDOL (10 mun.)

Ai dim ond mater o ddilyn synnwyr cyffredin i fyw bywyd da yw'r diarhebbion hyn, neu a oes rhywbeth amgenach i fywyd? (*Diar 6:23*)

Pam dywed Diarhebbion 1:7 mai ofn Jehofah yw dechrau gwybodaeth?

Mae gwrandao ar Jehofah yn arwain i fywyd tragwyddol (*Diar 3:13-18*)

Mae'n galw i gof sail bywyd tragwyddol a osododd Jehofah o flaen y dyn perffaith yn Eden

Sut medrwn ni ennill gwobr bywyd? Ai dim ond drwy fyw "bywyd da"?

Ystyriwch Ddiarhebbion 4:4, 10, 11; Ioan 17:3

Mae'n ofynnol gwneud pethau yn ôl ffordd Jehofah i sicrhau bywyd tragwyddol

Bydd trefniant y gynulleidfa ac astudio'r Beibl yn bersonol yn ein helpu i ddysgu'r hyn mae Duw yn ei ofyn gennym (*Diar 24:3*)

Mae'r cyfarfodydd yn ein hysgogi ni i rannu'n gwybodaeth o Air Duw drwy gymryd rhan yn y gwasanaeth maes (*Diar 3:27; 15:7a*)

Cawn ein helpu i ddod yn agos at Jehofah mewn perthynas bersonol a gweddi (*Diar 15:29*)

Gallwn sicrhau cymorth gan henuriaid yn y gynulleidfa (*Diar 24:6b*)

Dylem werthfawrogi'n hangen am arweiniad Duw fwyfwy (*Diar 16:9*)

Dylem ddod yn athrawon Gair Duw, yn cynnal astudiaeth o'r Beibl ag eraill (*Diar 1:2-6*)

Porthwch y rhai defaid debyg ar bob achlysur, fel y cawsom ni ein bwydo yn y cyfarfodydd (*In 21:15-17*)

IESU—Y FFORDD, Y GWIRIONEDD, A'R BYWYD (6 mun.)

Nid yw neb yn dod at y Tad a derbyn bywyd ond trwy Iesu (*In 14:6*)

Mae'r ffordd y nesawn at Dduw yn dibynnu ar ein ffydd yn aberth Iesu

'Ydym ni'n dymuno dilyn ei gwrs bywyd ef, er y gallai ddod â gwrthwynebiad, fel y medrwn nesáu at y Tad, Rhoddwr Mawr bywyd tragwyddol? Ydi'r ffordd hon yn rhy anodd?

Dangosodd Iesu na fyddai'r rhan fwyaf o bobl ddim yn dilyn y cwrs hwn, ond er hynny fe'i cymeradwyodd (*Mth 7:13, 14*)

A yw'r ffordd gul, gyfyng hon mor gaethiwus fel ei bod yn ein hamddifadu o lawenydd byw 'nawr os ydym i ennill gwobr yn y dyfodol? Ai dyna a olygai Iesu ynglŷn â ffordd gyfyng? (*w77* 621-5; *it-2* 168 ¶2)

Mae Jehofah wedi rhoi canllawiau inni ar gyfer bywyd llwyddiannus fydd yn ein cadw o fewn terfynau ei ffafr a'n cyfeirio ni'n gywir gan roi bywyd llawn inni heb inni fod yn edifar (Diar 4:10-13)

Dilynwch yn ffyddlon esiampI Iesu o bregethu a dysgu'r "newydd da" (Mth 9:35-38; 28:19, 20)

BYDDWCH YMHLITH Y RHAI DOETH SY'N DILYN FFORDD JEHOFAH I FYWYD (5 mun.)

Mor hapus y medrwn fod o wybod mai ffordd Jehofah sydd orau!

Hon yw'r ffordd nid yn unig i fywyd hapus 'nawr ond i fywyd tragwyddol o dan frenhiniaeth Crist yn Dywysog Tangnefedd

Er bod y ffordd yn agored i bawb, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ffôl ddilyn y ffordd eang i ddistryw

Hyd yn oed yn nyddiau'r apostolion, 'roedd llawer yn siarad yn niweidiol am y ffordd hon (Act 19:9)

'Ydyn ni eisiau cymryd ein lle ymhlith y rhai a ddisgrifir yn Diarhebon 6:12-19?

Neu 'ydyn ni eisiau dilyn y ffordd ddoeth sy'n arwain i fywyd? (Diar 8:32-35; 22:4)

Mae hyn yn cynnwys helpu eraill i ddysgu am y ffordd gywir hefyd

Boed inni ddewis y cwrs doeth, ffordd Jehofah, i fywyd tragwyddol! (Diar 12:28)

(Gellir canfod deunydd ychwanegol yn *w80* 2/15 25-9; *w73* 488-94; *w87* 5/15 28-30; *it-2* 703-7. Hefyd, chwiliwch fynegeion Ysgrythurol am wybodaeth ar adnodau penodol)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)